# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

CC(3)-10-10 : Papur 5

## Nodyn ar ymweliad yr Aelodau â Siop Wybodaeth Garnlydan, i wylio seminar yn y gweithle, gan Sefydliad Addysg Ariannol y Defnyddiwr (CFEB) ar ‘y defnydd gorau o’ch arian’

### Cefndir

Teithiodd Alun Davies AC a Mohammad Asghar AC i weld Lee Phillips (Rheolwr Gallu Ariannol y CFEB dros Gymru) yn cyflwyno seminar i staff Cymunedau yn Gyntaf Glyn Ebwy.

Roedd Tom Jackson, Clerc y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, hefyd yn bresennol.

### Cynnwys

Cyflwynodd Lee Phillips ei hun i’r bobl oedd yn cymryd rhan yn y seminar, ac fe amlinellodd y rheswm dros bresenoldeb yr aelodau. Pwysleisiodd y ffaith bod CFEB yn gorff annibynnol, ac felly nid oedd hi’n gallu argymell cynhyrchion ariannol penodol i bobl, ond ei bod yn gallu rhoi gwybodaeth iddynt.

Nodwyd mai’r bwriad oedd bod y seminar hwn yn un rhyngweithiol, ac fe ddechreuwyd y sesiwn gan ofyn i’r cyfranogwyr ddyfalu pa gynnyrch oedd wedi dangos cynnydd o 35% yn ei werthiant yn ystod y dirwasgiad. Roedd yr arddull hon yn ymddangos yn effeithiol, gyda’r cyfranogwyr yn gwirfoddoli gwybodaeth am eu gwariant eu hunain.

Yn y modd hwn, trafododd Lee Phillips ystod o feysydd lle gallai’r cyfranogwyr wella eu sgiliau rheoli arian, gan ddefnyddio esiamplau ymarferol i esbonio’i sylwadau. Roedd y materion hyn yn cynnwys:

Cymryd rheolaeth

Cadarnhau bod y dreth gywir yn cael ei thalu

Cynyddu cynilion cyhyd ag y bo modd

Cynyddu buddion cyhyd ag y bo modd

Cymharu cynhyrchion ariannol

Lleihau ffioedd cyhyd ag y bo modd

Lleihau costau cyfleustodau cyhyd ag y bod modd

Osgoi dyblygu yswiriant

Benthyca

Effaith statws credyd

Opsiynau benthyca tymor byr

Ystyr termau fel cyfradd ganrannol flynyddol (APR) a Tymor

Morgeisi

Rheoli dyled

Gwarchod eich teulu a’ch eiddo

Cynilo a buddsoddi

Cynllunio ar gyfer ymddeoliad

Eich pecyn buddion fel cyflogai

Wrth gloi’r seminar, gwahoddodd Lee’r cyfranogwyr i gofrestru ar gyfer sesiwn trafod unigol gyda’u cynghorwyr ariannol lleol.

Ar ôl y seminar, cafodd yr Aelodau gyfle i ofyn barn y cyfranogwyr am y sesiwn.

Dywedodd un cyfranogwr: “Roedd y sesiwn yn dda iawn... yn rhyngweithiol ac yn bersonol. Rydym yn cael pamffledi weithiau, ond chi’n gwybod fel mae pethau... nid ydych yn cysylltu’r peth â sefyllfa chi’ch hun, ac weithiau rydych chi’n rhoi’r pamffled o’r neilltu oherwydd

bod dim amser i'w ddarllen. Rwyf wedi gwneud apwyntiad i fy ngwraig a minnau gyfarfod â'r cynghorwr ariannol, oherwydd bod rhai pethau y gellid eu gwella, a gobeithio byddwn yn arbed ychydig o arian."